



cta

community transport
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL


Gair i Gall



Cynyddu incwm sydd heb gyfyngiadau Cenhadaeth a Gwerthoedd


Bydd y canllawiau hyn o gymorth i: fudiadau sydd eisiau ystyried dulliau posib o gynyddu eu hincwm sydd heb gyfyngiadau, ac y gellir ei ddefnyddio tuag at gynyddu cronfeydd wrth gefn, at gostau cynnal neu at ddatblygu prosiectau newydd


Yr hyn rydych chi am ei gyflawni:

Mudiad sy'n fwy cadarn yn ariannol ac sydd wedi sicrhau amrywiaeth yn ei ffrydiau incwm. 

Beth fydd ei angen arnoch chi:

Amynedd 

Dychymyg 

Parodrwydd i roi cynnig ar weithgareddau codi arian newydd 

Sut byddwch chi'n ei wneud:

- Cyllid sydd heb gyfyngiadau yw'r arian a godir neu a roddir i fudiad heb fod unrhyw ddiben wedi'i bennu ymlaen llaw ac felly mae rhyddid gan y mudiad i'w ddefnyddio ym mha bynnag ffordd y mae ei angen. Fodd bynnag, **er bod cyllid heb gyfyngiadau yn bwysig, nid yw'n gwarantu cynaliadwyedd ariannol.**
- Mae'n bwysig i fudiad **greu amrywiaeth** yn ei ffrydiau cyllido yn ogystal â sicrhau grantiau sy'n para dros sawl blwyddyn. Mae pob mudiad a'r cyd-destun y mae'n gweithio ynddo yn wahanol, felly mae'n bwysig **i bawb o fewn y mudiad weithio gyda'i gilydd i benderfynu pa lwybr codi arian fydd yr un mwyaf effeithiol a chynaliadwy i'w ddilyn.**

- Does yna ddim fformiwla hudol ar gyfer codi arian, a gallai un gweithgaredd codi arian fod yn llwyddiant mawr i'ch mudiad chi, ond ddim felly i fudiad arall. **Wrth baratoi cynllun codi arian, ceisiwch gynnwys ystod amrywiol o weithgareddau**, rhai ohonynt i ddod ag arian i mewn yn y tymor byr - digwyddiad, o bosib, a rhai eraill yn fwy hirdymor. Nodwch bod sicrhau incwm sydd heb gyfyngiadau yn gallu cymryd amser, gan ddibynnu faint o amser ac adnoddau fyddwch chi'n gallu eu rhoi at y gwaith, felly cofiwch gynnwys hynny yn eich cynllun codi arian.
- **Ffurfiwch eich achos dros gael cymorth a dewch o hyd i'r stori.** Bydd angen i chi fod yn gallu cyfiawnhau pam mae'ch angen chi ar eich buddiolwyr a pham mae'ch gwasanaethau'n bwysig. Os nad yw'ch mudiad yn gallu cyfiawnhau hyn yn fewnol, yna fydd cyfranwyr / cyllidwyr allanol ddim yn credu hynny. Nodwch pa fath o gyllidwyr rydych chi eisiau eu targedu a dewch o hyd i'r stori a'r neges am eich gwaith a fydd yn eu hysgogi.
- **Dechreuwch ofyn.** Dechreuwch gyda newidiadau bach i'r pethau rydych chi'n eu gwneud eisoes, er enghraifft, os ydych chi'n anfon cylchlythyr neu e-fwletin rheolaidd at eich buddiolwyr a'ch cefnogwyr yn ehangach, beth am droi hwn yn lythyr apêl?
- **Buddsoddwch.** Byddwch yn ddisgybledig a buddsoddwch symiau cynnar o incwm sydd heb gyfyngiadau mewn rhagor o waith codi arian er mwyn sefydlu rhaglenni rheolaidd sydd heb gyfyngiadau.
- Cadwch gofnod o bwy rydych chi'n cyfathrebu â nhw. Nes y byddwch wedi sefydlu rhaglenni cyllido sydd heb gyfyngiadau, mae'ch holl randdeiliaid yn ddarpar roddwyr, a rhaid i chi allu **diolech i'r rhai sy'n cyfrannu yn ogystal â chadw cysylltiad â'r rhai a allai gyfrannu yn y dyfodol.**
- A oes gennych gynllun a chyllideb ar waith ar gyfer gweithgareddau codi arian? Bydd manylder a dyfnder unrhyw gynllun yn dibynnu ar y gweithgaredd penodol. Er enghraifft, bydd cynllun codi arian 3-blynedd yn wahanol i amserlen o gamau gweithredu er mwyn sicrhau bod digwyddiad codi arian yn mynd rhagddo'n esmwyth. **Dylai cynlluniau codi arian bob amser gyd-fynd ag amcanion cyffredinol eich mudiad.**
- **Mae cyllido torfol yn golygu cael arian gan grŵp mawr o bobl i gyllido achos neu brosiect.** Gyda'r defnydd helaeth sydd o gyfryngau cymdeithasol, llwyfannau fel GoFundMe, Kickstarter, JustGiving, a GlobalGiving, mae modd cyrraedd carfan o ddefnyddwyr y we sy'n esblygu'n barhaus, a gall cyllido torfol fod yn arf effeithiol ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn ogystal â chyllid sydd heb gyfyngiadau.
- **Gallai ymddiriedolaethau elusennol fod yn ffynhonnell arall o gyllid sydd heb gyfyngiadau** – mae angen gwirio eu meini prawf, ond mae ymddiriedolaethau megis Sefydliad Garfield Weston yn un enghraifft.

- Mae **ffioedd aelodaeth neu danysgrifio** yn aml yn ffynonellau ar gyfer cronfeydd cymharol fach o gyllid sydd heb gyfyngiadau sydd oddi allan i gyfundrefn grantiau. Gall cynnal apêl i'ch aelodaeth bresennol o dro i dro fod yn ddefnyddiol.
- Busnesau yn eich ardal: edrychwch ar y tudalennau busnes yn eich gwasg leol er mwyn canfod cwmnïau sy'n gwneud yn dda ac y gallent fod yn agored i apêl heb iddynt wahodd ceisiadau, neu **cadwch lygad am gwmnïau sydd â hanes o gefnogi achosion cymunedol**, ac yna cysylltwch yn uniongyrchol â nhw.
- **Gwerthu nwyddau:** yn ogystal â chynhyrchu incwm, gall gwerthu nwyddau helpu i gryfhau brand eich mudiad a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Bydd angen i chi ystyried pa incwm gallwch chi ei gynhyrchu cyn gorfod ystyried sefydlu cangen fasnachu ar wahân ar gyfer eich mudiad.
- Meddyliwch a fyddai **cynnal digwyddiadau codi arian** yn gallu cynhyrchu incwm, er enghraifft: dyddiau agored, cyngherddau ac ocsiynau.
- **Modelau mentrau cymdeithasol:** nod modelau mentrau cymdeithasol yn y pen draw ydy sicrhau cynaliadwyedd trwy alluogi mudiadau i gynnal eu hunain heb ddibynnu'n gyfan gwbl ar grantiau a chyfraniadau. Ydy hynny'n rhywbeth y byddai'ch mudiad chi am ei ystyried?

Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i'r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn ctauk.org/cciw-cymraeg.